# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2017

Amser: 08.30 - 08.46

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Paul Davies AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Trefnwyd bod 45 munud yn cael ei neilltuo ar gyfer datganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar yr ymgynghoriad ynghylch Cynllun Gweithredu Strategol Drafft ar gyfer Dementia yng Nghymru, yn hytrach na 30 munud.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn gwneud datganiad ar Ffliw Adar (30 munud).

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn gwneud datganiad ar y Gronfa Triniaethau newydd (45 munud).

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth yn cael ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 25 Ionawr 2017 –**

- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: ymchwiliadau a gwaith ymgysylltu ar gyfer y dyfodol (30 munud)

**Dydd Mercher 1 Chwefror 2017 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar ei ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 (60 munud)

Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol mewn perthynas â'r Bil Addysg Uwch ac Ymchwil.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol erbyn dydd Iau 9 Chwefror 2017 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 14 Chwefror 2017.

### 4.2 Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol at y Llywydd ynghylch Biliau Cydgrynhoi

Nododd y Pwyllgor Busnes lythyr gan y Cwnsler Cyffredinol am ei ymateb i Gomisiwn y Gyfraith ynghylch ei adroddiad ar 'Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru'.

Yn sgil canfyddiadau Comisiwn y Gyfraith, awgrymodd y Cwnsler Cyffredinol yn ei lythyr ei fod yn fodlon ailddechrau'r broses o gyflwyno gweithdrefn ar gyfer Biliau Cydgrynhoi, a ddechreuwyd gan Lywodraeth Cymru a swyddogion Comisiwn y Cynulliad ym mis Mai 2014.

Nododd y Rheolwyr Busnes eu bod yn fodlon ailddechrau cydweithio ar gynigion ar gyfer diwygio Rheolau Sefydlog i gynnwys gweithdrefn ar gyfer ystyried Biliau Cydgrynhoi ac i ysgrifennu at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i roi gwybod iddo am eu penderfyniad.

## 5 Rheolau Sefydlog

### 5.1 Adolygiad o Drefniadau Deisebau Cyhoeddus

Bu'r Rheolwyr Busnes yn trafod papur yn nodi cynigion ar gyfer diwygio Rheolau Sefydlog ar sail argymhellion yr 'Adolygiad o Drefniadau Deisebau Cyhoeddus' yr oedd y Pwyllgor Deisebau am fwrw ymlaen â hwy. Roedd y Pwyllgor Busnes yn cytuno o ran egwyddor â'r cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog er mwyn rhoi argymhellion 3 a 4 yn yr adroddiad ar waith, a'r cynigion ar gyfer gweithdrefnau y tu allan i'r Rheolau Sefydlog sy'n ymdrin â deisebau sy'n cyrraedd trothwy penodol o lofnodion.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Deisebau er mwyn cael ei farn ar y cynigion.

## Unrhyw fater arall

*Gadael y Siambr*

Atgoffodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes fod disgwyl i Aelodau sydd wedi cyfrannu at eitem aros yn y Siambr drwy gydol yr eitem ac y bydd unrhyw Aelodau nad ydynt yn gwneud hynny yn cael eu cosbi yn y dyfodol.

*Datganiadau*

Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes annog Aelodau i fod yn gryno wrth ofyn cwestiynau ynglŷn â datganiadau. Caiff llefarwyr siarad am ddwy funud cyn gofyn eu cwestiynau, ond disgwylir i Aelodau ofyn eu cwestiynau yn syth.